**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**6 MAWRTH 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, ddydd Mercher 6 Mawrth 2019.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Derek Butler, David Cox, Ian Dunbar, David Evans, Veronica Gay, Patrick Heesom, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin a Mike Peers

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Adele Davies-Cooke, Carol Ellis, Dave Hughes, Kevin Hughes, Neville Phillips ac Owen Thomas

**HEFYD YN BRESENNOL:** Roedd y canlynol yn bresennol fel Aelodau lleol:
Y Cynghorydd Dennis Hutchinson – ar gyfer Eitem 6.1 (058489) ar y Rhaglen
Y Cynghorydd Arnold Woolley - ar gyfer Eitem 6.3 (059387) ar y Rhaglen
Y Cynghorydd David Williams – ar gyfer Eitem 6.4 (059352 – gohiriwyd) ar y Rhaglen

Bu'r cynghorwyr canlynol yn arsylwi:
Y Cynghorwyr Haydn Bateman a George Hardcastle

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi); Rheolwr Datblygu; Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth; Arweinydd Tîm – Cynllunio; Uwch Gynllunwyr; Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygiad Priffyrdd; Uwch Gyfreithiwr; a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd.

## 56. DATGAN CYSYLLTIAD

Ar eitem 6.6 (058583) ar y rhaglen, datganodd y Cynghorydd Dunbar gysylltiad personol sy'n rhagfarnu gan ei fod yn llywodraethwr Ysgol Gynradd Gwepra a fyddai'n elwa o gyfraniad ariannol addysg pe bai'r cais yn cael ei gymeradwyo. Byddai'n gadael yr ystafell ar gyfer yr eitem honno ac ni fyddai'n cymryd rhan yn y drafodaeth na'r bleidlais.

Ar eitem 6.1 (058489) ar y rhaglen, dynododd y Cynghorydd Hutchinson y byddai'n siarad fel Aelod lleol, a datganodd gysylltiad personol sy'n rhagfarnu gan ei fod yn berchen ar dir gerllaw safle'r cais. Roedd y Cynghorydd Hutchinson wedi cael caniatâd gan y Pwyllgor Safonau i siarad ar yr eitem.

## 57. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a rannwyd yn ystod y cyfarfod ac a oedd wedi eu hatodi i'r rhaglen ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

http://cyfarfodyddpwyllgor.siryfflint.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4366&Ver=4&LLL=1

**58. COFNODION**

Cafodd cofnodion drafft y cyfarfod ar 6 Chwefror 2019 eu cyflwyno a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

**59. EITEMAU I'W GOHIRIO**

Cyfeiriodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd a'r Economi) at y sylwadau hwyr a chynghorodd bod yr eitem ganlynol wedi'i hargymell i'w gohirio, er mwyn canfod a oedd y cyfraniadau addysg yn cydymffurfio â rheoliadau CIL. Pe cytunwyd gohirio, byddai'r eitem yn cael ei dwyn yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

**Eitem 6.4 ar y Rhaglen - Cais Llawn – Codi 32 o anheddau ar dir ar Ffordd Penarlâg, Penyffordd (059352)**

Cynigodd y Cynghorydd Lloyd ohirio a gafodd ei eilio gan y Cynghorydd Dunbar. Ar gael ei rhoi i'r bleidlais, cafodd yr eitem ei gohirio.

**PENDERFYNWYD:**

Gohirio eitem 6.4 (059352) ar y rhaglen tan y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor am y rhesymau a nodwyd.

**60. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD A'R ECONOMI)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau a gyflwynwyd ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio oedd ynghlwm fel atodiad.

**61. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Ar ddechrau'r cyfarfod roedd 19 aelod o'r cyhoedd ac un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 3.25pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarlledu: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 6 MAWRTH 2019**

| EITEM RHIF | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAMAU GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 058489 | Cyngor Tref Bwcle | Cais Amlinellol i ddymchwel Rhif 81 Drury Lane a chodi hyd at 66 o anheddau yn 81 Drury Lane, Bwcle. | Siaradodd Mr S. Bourne (ar ran yr ymgeisydd) o blaid y cais.<br><br>Siaradodd Mr J. Bailey yn erbyn y cais.<br><br>Ar ôl datgan cysylltiad personol sy’n rhagfarnu, a chael caniatâd gan y Pwyllgor Safonau, siaradodd y Cynghorydd Dennis Hutchinson yn erbyn y cais. | Bod caniatâd cynllunio yn cael ei wrthod, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 057165 | Cyngor Tref Bwcle | Cais Llawn – Dymchwel yr Adeiladau Presennol a Chodi 13 Tŷ a 4 Fflat yn Mill Lodge, Mill Lane, Bwcle | - | Rhoi caniatâd cynllunio ar yr amod fod yr ymgeisydd yn derbyn Rhwymedigaeth Adran 106 ac yn ddibynnol ar yr amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| EITEM RHIF | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAMAU GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 059387 | Cyngor Tref Bwcle | Cais amlinellol ar gyfer datblygiad preswyl ar Megs Lane, Bwcle. | Siaradodd Mr D. Forshaw, yr asiant, o blaid y cais.<br><br>Siaradodd Mr M. Lewis yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Arnold Woolley, fel Aelod Lleol, yn erbyn y cais. | Bod caniatâd cynllunio yn cael ei wrthod, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 059352 | Cyngor Cymuned Penyffordd | Cais Llawn – Codi 32 o anheddau ar dir ar Ffordd Penarlâg, Penyffordd. | - | **GOHIRIWYD** er mwyn penderfynu ar ganlyniad y sylwadau hwyr mewn perthynas â'r cyfraniad addysg yn cydymffurfio â rheoliadau CIL. |
| 059029 | Cyngor Cymuned Penarlâg | Cais Llawn – Cais ôl-weithredol – ailraddio safle i greu cae padog lefel ar gyfer ceffylau a gosod bloc stablau, plannu gwrychoedd brodorol a chodi ffens i drin ffiniau a chreu diogelwch i'r safle yn Ashwood House, Church Lane, Aston Hill, Ewlo | - | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 058583 | Cyngor Tref Cei Connah | Cais Llawn – Adeiladu 33 annedd a gwaith cysylltiedig, ar ôl dymchwel yr annedd bresennol a'r adeiladau allanol | Ar ôl datgan cysylltiad personol sy'n rhagfarnu, aeth y Cynghorydd Ian Dunbar allan o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon. | Rhoi caniatâd cynllunio ar yr amod fod yr ymgeisydd yn derbyn Rhwymedigaeth Adran 106 ac yn ddibynnol ar yr amodau a amlinellwyd |

| EITEM RHIF | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAMAU GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | ar dir yn Broad Oak, Ffordd yr Wyddgrug, Cei Connah. | | yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 054077 | Cyngor Tref y Fflint | Cais Amlinellol - Datblygiad Preswyl o 16 Annedd gyda manylion mynediad yn Pandy Garage, Ffordd Caer, Oakenholt. | - | Rhoi caniatâd cynllunio ar yr amod fod yr ymgeisydd yn derbyn Rhwymedigaeth Adran 106 ac yn ddibynnol ar yr amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad, yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| **APÊL** | | | **NODWYD** | |
| 057737 | | Apêl gan Mr. S. Banks yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir y Fflint i wrthod caniatâd cynllunio i newid defnydd tir er mwyn storio ceir a faniau dros dro yn Wood Farm, Deeside Lane, Sealand – GWRTHODWYD. | | |
| 058024 | | Apêl gan Mr. C. Walsh yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir y Fflint i wrthod caniatâd cynllunio i newid defnydd ac ymestyn annedd i ffurfio tŷ amlfeddiannaeth yn 46 Gladstone Road, Brychdyn - CANIATAWYD | | |

| EITEM RHIF | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SIARADWYR TRYDYDD PARTI/ CAMAU GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 058147 | | Apêl gan Mr a Mrs C. Patrick yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir y Fflint i wrthod caniatâd cynllunio i ffurfio estyniadau dormer i flaen a chefn annedd yn 13 Moorcroft, New Brighton - GWRTHODWYD | Dywedodd y Cynghorydd Peers byddai gweld cael gweld y cynlluniau o gymorth i'r Pwyllgor mewn adroddiadau apêl yn y dyfodol. | |